OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1575 (Cy.161)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) (Diwygio) 2004

Wedi'i wneud	- -	*22 Mehefin 2004*
Yn dod i rym	- -	*30 Mehefin 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 6(3) a 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(**1**):

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) (Diwygio) 2004 a daw i rym ar 30 Mehefin 2004.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Gorchymyn 2002" yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002(**2**).

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i awdurdodau gwerth gorau yng Nghymru ac eithrio'r rheini a bennir yn adran 1(1)(d) ac (e) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999.

Diwygiadau i Orchymyn 2002

2.—(1) Caiff Gorchymyn 2002 ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ddechrau erthygl 3, mewnosoder "Yn ddarostyngedig i erthygl 3A,".

(3) Ar ôl erthygl 3, mewnosoder —

"**Cyhoeddi cynlluniau gwella ym mlwyddyn ariannol 2004-2005**

3A. Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2004 ac sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2005, rhaid i awdurdodau gwerth gorau gyhoeddi eu cynllun gwella erbyn 31 Gorffennaf 2004.".

(**1**) 1999 p.27.
(**2**) O.S. 2002/886 (Cy.101).